CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

**D A T G A N I A D   N E W Y D D I O N**
**24 MAWRTH 2017**

## TîM OCKENDEN A'R CORFF GWARCHOD YN YMUNO Â'I GILYDD I ADOLYGU AC YSTYRIED GOFAL IECHYD MEDDWL POBL HŶN

Mae'r tîm annibynnol, a arweinir gan Donna Ockenden, sy'n edrych ar ofal pobl hŷn gyda phroblemau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru wedi cadarnhau rhai o'r dyddiadau a'r lleoliadau i'r cyfarfodydd gwrando ac ymgysylltu ar draws y rhanbarth y gwanwyn yma. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i bobl rannu eu barn a'u profiadau fel rhan o adolygiad sy'n mynd rhagddo gan Donna Ockenden a'i thîm.

Bydd Donna Ockenden, ei thîm a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – y corff gwarchod annibynnol, yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ar draws chwe sir gogledd Cymru gan wahodd staff GIG, cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd i siarad am y gofal a'r gwasanaethau gaiff eu darparu i bobl hŷn gyda phroblemau iechyd meddwl.

**<u>Cynhelir cyfarfodydd yn y lleoliadau isod ar y dyddiadau a ganlyn:</u>**

**3$^{ydd}$ Ebrill 2017 o 2.30pm i 6.00pm** yn Glasdir, Plas yn Dre**,** Llanrwst

**4$^{ydd}$ Ebrill 2017 o 11.00am i 3.00pm a 6.00pm i 8.00pm** yng Nghsnolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

**8$^{fed}$ Mai 2017 o 2.30pm i 5.00pm** yn y Ganolfan Reoli, Ysgol Fusnes Bangor, Bangor

**9$^{fed}$ Mai 2017 o 10.30am i 1.30pm** yn Neuadd Pendre, Tywyn

**10$^{fed}$ Mai 2017 o 9:00am i 11.30am** ym Mhlas Heli, Hafan, Pwllheli

(*Dalier sylw: rydym yn eich annog i roi gwybod i CICGC os ydych yn dymuno dod i un o'r cyfarfodydd uchod – gweler isod)*

Er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mhob un o chwe siroedd y gogledd bydd cyfarfodydd eraill yn cael eu trefnu mewn rhannau eraill yn ystod Mehefin a dechrau Gorffennaf – byddwn yn cadarnhau manylion y dyddiadau yn fuan.

Dywedodd Ms Ockenden, 'Mae'r gwaith yma yn rhan o'r adolygiad sy'n mynd rhagddo am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn yng ngogledd Cymru. Mae'r adolygiad hefyd yn edrych ar y digwyddiadau a arweiniodd at gau ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd yn Rhagfyr 2013. Bydd yr adolygiad yn ystyried systemau, strwythurau a phrosesau llywodraethu y Bwrdd Iechyd yn y gorffennol a'r rhai cyfredol, ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Mae estyn allan a gwrando ar gleifion, eu gofalwyr a'u cynrychiolwyr a staff gofal iechyd yn y modd yma'n hanfodol i'r adolygiad i benderfynu beth yw y gwir. Trwy gydol y gwaith yma rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull annibynnol a gwrthrychol o ymdrin â'r mater. Bydd cyfarfod a gwrando ar staff, cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr ar draws siroedd y gogledd yn helpu fy nhîm i sicrhau fod lleisiau'r cleifion yn rhan ganolog o'r adroddiad terfynol.'

Aeth Ms Ockenden yn ei blaen i ddweud,, 'Rwyf wrth fy modd y bydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn ymuno gyda fy nhîm wrth i ni gynnal y digwyddiadau hyn. Bydd gwybodaeth leol CICGC a'r ffaith eu bod yn ddiduedd yn caniatáu i bobl siarad yn rhydd gyda mi a'r tîm a hynny yn gyfrinachol'.

'Bydd y cyfarfodydd wedi eu llunio fel bod modd i bobl siarad gyda ni am faterion penodol sy'n ymwneud â'u profiadau o'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn ar draws gogledd Cymru. Fe fyddwn yn cynnal sesiynau grŵp gyda phob un yn canolbwyntio ar nifer o agweddau sy'n ymwneud â phrofiadau pobl. Gellir disgrifio y rhain fel y '7 **C'** sy'n cynnwys **C**anmoliaeth, (ble roedd y gofal yn dda, da iawn neu ardderchog), **C**oncerns (Pryderon) neu **C**wynion; (os oedd rhai, sut gawsant eu trin?) rhan y claf a'r teulu yn y **C**ynllunio gofal a'r **C**are provision (Darpariaeth gofal) a'r **C**yfathrebu rhwng y claf, teulu a'r GIG yn lleol. .

I roi gwybod i CICGC eich bod yn dymuno mynychu un o'r cyfarfodydd hyn neu i gael rhagor o wybodaeth neu gyfweliad, cysylltwch â Carol Williams ar: 01248 679 284 neu e-bost: yourvoice@waleschc.org.uk.

Mae modd i chi hefyd gofrestru y byddwch yn mynd i gyfarfod ar ein ap SurveyMe yn:

http://svy.at/xtb UK – DO – 2017

**Nodiadau i'r golygyddion**

1 Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) yn gorff statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng ngogledd Cymru. Daeth i fodolaeth ar y 1af Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n cynnwys siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 675,500.

2 Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe pwyllgor lleol, un i bob un o'r chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau yn y sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

DIWEDD